

Yr her:

Yn anffodus, mae nifer o ddigwyddiadau chwaraeon wedi eu canslo eleni e.e. Wimbledon, Ewros a'r gemau Olympaidd. Ond, yn lle gwylio eleni, beth am greu achlysur eich hun? Fe allwch greu gem newydd gyda'ch teulu a'i droi mewn i dwrnamaint/dathliad/ digwyddiad newydd ac unigryw.

Ond cyn ei greu, be am ymchwilio i rai sy'n bodoli eisoes?



Pwyntiau trafod i rieni:

- Gallwch restrï gemau a mathau o chwaraeon yr ydych yn hoffi?
- Pa nodweddion sydd angen i fod yn chwaraewr da?
- Pa nodweddion sydd angen i fod yn aelod da mewn tîm?
- Oes yna math o chwaraeon newydd hoffech i drïo?
- Pa ddigwyddiadau sydd wedi, neu oedd i fod i ddigwydd eleni?
- Pa chwaraewyr enwog sydd yn chwarae'r gemau?



Cynllun pythefnos: Chwarae (Bl 1 & 2)

Rhaid gwneud...

- | | | |
|---|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> Dysgu geriau sillafu wythnosol. Mae'r geriau ar Spell j2blast i'w ymarfer! Darllen yn reolaidd- cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch - cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geriau anghyfarwydd. | <ul style="list-style-type: none"> Ymarfer tablau mathemateg (Bl 1 - tabl 1, 2, 5 a 10/Bl2 - tablau 1, 2, 5 a 10 i ddechrau a thabl 3 fel her!) Mathemateg - Bondiau rhif hyd at 100 - adio a thynnu. Adnabod a chyfrif cyfansymiau arian Adnabod amser e.e. o'r gloch, hanner awr wedi, chwarter awr wedi a chwarter i. | <ul style="list-style-type: none"> Joe Wicks - sesiwn fyw ar 'YouTube' am 9:00yb Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube' Cosmic Kids Yoga - sesiwn ar 'YouTube' Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo. Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb. |
|---|--|---|

Dylech wneud...

 Llythrennedd	 Rhifedd	 Thema
 Dewch o hyd i'ch hoff gêm fwrdd. Ewch ati i greu poster ddeniadol i hysbysu'r gêm yma. Cofiwch i labelu rhannau'r gêm e.e. cardiau, dis, bwrdd, cownteri ag ati.	 Ewch i wefan Argos/Amazon (neu defnyddiwch catalog Argos) - dewisiwch hyd at 5 gêm. Trefnwch rhain o'r lleiaf i'r mwyaf o ran pris.	 Ewch ati i gynllunio diwrnod Mabolgampau ar gyfer chi a'ch teulu! Beth am gynnwys ras llwy ac ŵy, ras cropian, ras hercian, ras rhwystr, ras sach ag ati. Recordiwch eich hun - trydarwch eich fideo, neu rhowch ar Hwb - i ddangos eich doniau!
 Ewch ar helpa o gwmpas y tŷ (tu fewn a thu allan) i chwilio am degannau/gemau bwrdd. Lluniwch restr o'r pethau yma. Yna trefnwch rhain yn nhrefn yr wyddor.	 Cynlluniwch cwrs rhwytr i chi a'ch teulu i wblhau. Amserwch eich aelodau'r teulu yn cwblhau'r cwrs. Nodwch y canlyniadau. Pwy yw'r cyflymaf? Pwy yw'r mwyaf araf? Faint o amser cymerodd y person cyflymaf i gwblhau'r cwrs? Faint o amser cymerodd y person mwyaf araf i gwblhau'r cwrs? Beth oedd y gwahaniaeth rhyngddynt?	 Ewch ati i ddylunio cit chwaraeon newydd ar gyfer ein hysgol ni! Dewisiwch lliwiau addas, cynllunio logo i'r cit a gwnewch yn siwr ei fod yn ddiddorol ac yn ddeniadol. Rhannwch eich syniadau gyda ni ar Drydar yr ysgol!
 Dewisiwch eich hoff gêm ac ewch ati i ysgrifennu/recordio cyfarwyddiadau ar gyfer y gêm hwn. Cofiwch gynnwys Yn gyntaf, yn ail, nesaf, ar ôl hynny, wedyn. Hefyd, cofiwch gynnwys berfau gorchmynnol e.e. taflwch, cyfrifwch.	 Ymchwiliwch fideos ar y wê gyda rhiant beth yw naid sefyll, naid drifflyg a naid hir. Yna, rhowch gynnig ar un o rhain. Gan ddenfyddio unedau safonol neu ansafonol, mesurwch hyd pob naid. Trefnwch y canlyniadau.	 Chwaraewch gêm fwrdd o'ch dewis gyda'ch teulu. Pa gêm wnaethoch chi chwarae gyda'r teulu? Tynnwch lun a rhannwch gyda ni ar Drydar! Yna, ewch ati i greu gêm fwrdd eich hunan! Cofiwch i gymryd tro, a chofiwch i gynnwys rheolau teg!

Gallaf wneud...

- | | | |
|---|--|---|
| <p>Heriau LEGO</p> <p>Llyfrau sain David Walliams</p> <p>Newsround - darllen y newyddio diweddaraf</p> <p>ACTIV-I-TI - ar lein o 1:00yp</p> | <p>Minecraft</p> <p>Cymuned y Sgarlets- Sgiliau Mathemateg</p> <p>Carol Vorderman - 'My Maths School'</p> <p>Cip ar Fathemateg</p> | <p>Dawnsio gyda Oti Mabuse</p> <p>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant</p> <p>BBC Bitesize</p> <p>Hour of Code</p> |
|---|--|---|

Science experiment

Science Investigations - STEM website
stemsational.com

Adnoddau twinkl-Mynychwch y wefan am ddim

www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd

UKTWINKLHELPS

Zumba Kids

SGILIAU – gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook

Celf Helen Elliot - Pob dydd mercher a Gwener am 3:00yp

Orielodl - fideo cam wrth gam

Criw Celf, Huw Aaron - pob dydd am 3y.p

Llifo'n Llawen - Yoga

Just Dance - 'Youtube'

Gwefan TopMarks Mathemateg

Gwefan MathsFrame Mathemateg

mathsalamanders.com

Gwersi canu gyda Myleene Klass am 10:00 yb

Coginio gyda Jamie Oliver am 12:00 yp

Traed Bach Sionc (Busy Feet) - Youtube